

Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Gyflawn Hydref 2018

Mae Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar yr ymgeisydd angen unrhyw oruchwyliaeth.

Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.

Sylwadau Cyffredinol

Yn y rownd hon o arholiadau, am y tro cyntaf, roedd gofyn bod ymgeiswyr Cyflawn yn cyfieithu 3 darn, 2 fel arfer o dan amodau arholiad, ond trydydd darn ar ffurf gwaith cartref, i'w gyflwyno cyn sefyll yr arholiad. Roedd y datblygiad diweddaraf hwn yn ffrwyth cryn drafodaeth, a theimlid y byddai'n fuddiol iawn gweld enghraifft o waith 'gorau' ymgeiswyr, yn ogystal â'u hymdrechion o dan amodau arholiad, pan na fyddant o reidrwydd yn medru cynnig gwaith sy'n gwbl ddi-fai oherwydd straen y sefyllfa.

Yn anorod, gan fod yr arholiadau Cyflawn yn cyfateb i lefel gwbl broffesiynol o waith, mae cryn nifer o'r ymgeiswyr yn ffiniol ym mhob arholiad, ac roedd y gwaith cartref, felly, yn adnodd gwerthfawr i fwrw goleuni pellach ar safon, a throï'r glorian y naill ffordd neu'r llall.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 12

Llwyddo: 4

Fel rhan o'r drefn newydd ar y lefel Gyflawn, yn hytrach na chael graddau am wahanol elfennau yn eu gwaith, mae'r ymgeiswyr naill ai'n llwyddo neu'n methu, ac mae unrhyw fân frychau yn cael eu hasesu o ran eu heffaith ar y cyfanwaith. Mewn gwirionedd, nid yw hyn yn wahanol iawn i'r hen drefn, gan mai gradd 1 yn unig oedd yn dderbyniol er mwyn llwyddo, ac felly roedd y graddau eraill yn ddiystyr i ryw raddau. Yn lle cloriannu eu gwaith ar ffurf graddau, felly, gwnaed sylwadau cryno ar waith pob ymgeisydd, yn cyfeirio at y cryfderau a'r gwendidau perthnasol.

Braf medru dweud bod y sylwadau ar waith yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cynnwys pwyntiau fel y canlynol:

***Mae'r iaith yn lân a'r gystrawen yn gadarn
Mae'r ystyr yn glir a'r darnau'n darllen yn rhwydd***

Dyma'n union a ddisgwylir ar lefel Aelodaeth Gyflawn, ac mae'n braf medru nodi mai dyna gafwyd, gan rai o leiaf.

Enghreifftiau o'r math yma o gyfieithu llwyddiannus yw:

Consultation is currently taking place...

Mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ynghylch...

...protect and enhance our precious landscapes, wildlife and natural assets

...amddiffyn a gwella ein tirweddau, ein bywyd gwylt a'n hasedau naturiol gwerthfawr

(Roedd ailadrodd 'ein' gyda phob elfen yn hanfodol bwysig yn y frawddeg hon, ac yn sicrhau bod y mynegiant yn naturiol Gymreig.)

But plenty of parents are reluctant to encourage a young child to come and help in the kitchen.

Ond mae llawer o rieni'n gyndyn i annog plentyn ifanc i ddod i helpu yn y gegin.

...they're busy, after all.

...mae ganddynt ddigon ar eu plât yn barod.

While these principles are already central to government environmental policy, they are not set out in one place...

Er bod yr egwyddorion hyn yn ganolog i bolisi amgylcheddol y llywodraeth eisoes, nid ydynt i gyd wedi'u nodi mewn un man...

...her creative imagination was suddenly fired...

...a thaniwyd ei dychymyg creadigol...

...a town nestling among the southern slopes of Snowdonia...

...tref sy'n swatio ymhlith llethrau deheuol Eryri...

...sense of personal modesty, or perhaps restraint, which instinctively eschewed a lot of unnecessary public fuss

...ymdeimlad o wyleidd-dra personol, neu o ymatal efallai, a wnaeth iddi osgoi yn reddfol lawer o ffwdan gyhoeddus ddiangen

Fel bob amser, ar y lefel hon, roedd y darnau a ddewiswyd yn heriol, gan fod angen i'r ymgeiswyr ddangos eu gallu i ymdopi â chyfieithiadau o wahanol ddarnau, a hynny gan gynnal y safon broffesiynol angenrheidiol. Dewiswyd y darn gwaith cartref yn arbennig i gynnig mwy o her, gan fod yr ymgeiswyr yn medru paratoi'r cyfieithiad hwnnw wrth eu pwysau, gan ymgynghori â'r ffynonellau termau arferol ac ati, heb fod o dan bwysau arholiad.

Er mai 4 ymgeisydd yn unig a lwyddodd i gynnal y safon angenrheidiol y tro hwn, roedd sawl un arall yn agos at y lan, a gwelwyd enghreifftiau o gyfieithu da yng ngwaith pawb.

Trueni, felly, yw bod gwallau ystyr, yn anad dim, wedi amharu ar y gwaith a gyflwynwyd, a'i atal rhag cyrraedd y safon ofynnol.

Dyma rai enghreifftiau o hynny:

...and then have regard to – a... statement
...ac yna i ddal sylw o'r datganiad hwnnw

...endangered species...
...rhywogaethau a warchodir...

...responding to complaints about government's delivery of environmental law
...ymateb i gwynion am ddarparu cyfraith amgylcheddol gan lywodraeth

...holding government to account publicly over
...bod y llywodraeth yn atebol iddo yn gyhoeddus o ran

...where Howells himself became her musical lodestar
...lle'r aeth Howells ei hun mewn cyd-destun cerddorol i Dilys yn ddylanwad allweddol i'w efelychu

(Roedd 'lodestar' wedi achosi trafferth i lawer, er bod rhai wedi deall mai rhywbeth tebyg i 'ysbrydoliaeth' neu 'awen' oedd yr ystyr yma.)

Y ffaith bod y gystrawen wedi glynu'n rhy agos at batrwm y gwreiddiol oedd yn cymylu'r ystyr mewn rhai achosion, e.e.:

Consultation is currently taking place on a new... Bill, which will ensure environmental protections will not be weakened as we leave the EU and establish a world-leading body to hold government to account for environmental outcomes.

Ymgynghorir ar hyn o bryd ar Fil... newydd a fydd yn sicrhau na wanheir amddiffynfeydd amgylcheddol wrth inni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a sefydlu corff sy'n arwain y byd i ddwyn llywodraeth i gyfrif am ganlyniadau amgylcheddol.

O fynd ati i gyfieithu'n llythrennol, air am air, fel hyn, mae cystrawen y frawddeg mor annaturiol yn Gymraeg nes cymylu'r ystyr, gan nad yw'r cyfieithiad yn llifo o gwbl.

Fel y soniwyd eisoes, roedd cryfderau yng ngwaith pob un o'r ymgeiswyr, ond roedd yn siom gweld bod rhai gwallau esgeulus wedi llithro i mewn i'r gwaith a gyflwynwyd. Roedd un ymgeisydd wedi anwybyddu teitl y ddeddfwriaeth a roddwyd ar y papur (i helpu'r ymgeiswyr oherwydd nad oedd modd gwirio ar y we), ac wedi dyfeisio'i fersiwn ei hun. Roedd eraill wedi methu ag ymdopi â ffurfiau fel 'delivery of environmental law' a 'scrutiny', er y byddid yn disgwyl i unrhyw un sy'n ymgeisio am aelodaeth broffesiynol ym maes cyfieithu fod yn gyfarwydd iawn â'r cyfryw dermau.

Wedi dweud hynny, cafodd mwyafrif yr ymgeiswyr well hwyl ar yr ail ddarn (oedd yn fwy anffurfiol), ac roedd safon y gwaith a gyflwynwyd ar draws y darnau prawf yn dda ar y cyfan.

Yr her i'r ymgeiswyr aflwyddiannus i gyd, fe dybiwn i, yw sicrhau, yn y lle cyntaf, eu bod wedi cyfleu ystyr y gwreiddiol yn fanwl gywir. Wedi gwneud hynny, dylent fentro gosod y gwreiddiol o'r neilltu a darllen eu gwaith fel testun annibynnol cyn ei gyflwyno. O wneud hynny, byddant mewn sefyllfa well i gael hyd i'r rhannau sy'n swnio'n drwsgl oherwydd eu bod wedi glynu'n rhy agos at batrwm y gwreiddiol. Er mwyn cyflwyno cyfieithiad llwyddiannus, rhaid i'r gwaith ddarllen fel darn o Gymraeg naturiol, ac mae hynny'n rhywbeth na ellir cyfaddawdu yn ei gylch ar y lefel hon.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 3

Llwyddo: 1

Wrth gyfieithu i'r Saesneg hefyd, symudwyd i'r drefn newydd, sef cyflwyno darn o waith cartref, yn ogystal â'r 2 ddarn dan amodau arholiad. Yn achos y darnau i'r Gymraeg, bu'r gwaith cartref gofalus yn fodd i gadarnhau mai llithriadau bach o dan amodau arholiad oedd ambell wall a nodwyd, ond yma, gwaetha'r modd, cafwyd bod rhai gwallau esgeulus yn y gwaith cartref yn ogystal. Enghraifft o hyn oedd cyfieithu 'Dechreuasai' (gair cyntaf y darn gosod) fel 'began' yn hytrach na 'had begun'.

Dyma rai enghreifftiau eraill lle na lwyddwyd i gyfleu ystyr y gwreiddiol yn naturiol:

...ac o wledydd eraill

...from even further afield

...gydag amser

...with time

...wedi datblygu yng Nghwm Tawe er cyfnod cymharol gynnar

...had existed in Cwm Tawe since early times

...ar raddfa gymharol fach ac yn un lleol ei natur

...at a relatively small scale and was localized

Wrth gwrs, fe gafwyd cyfieithiadau eraill oedd yn llwyddiannus a chadarn, e.e.:

...ar raddfa gymharol fach ac yn un lleol ei natur

...comparatively small scale and local in character

...wedi datblygu yng Nghwm Tawe er cyfnod cymharol gynnar

...had developed in the Swansea Valley from a relatively early period

...roedd y gymuned yno'n bur Gymreig ei hiaith a'i hysbryd o hyd

...still very much Welsh in both language and spirit

O ystyried bod yr ymgeiswyr wedi cael cyfle i baratoi'r darn hwn wrth eu pwysau, ac ymgynghori â ffynonellau termau ac ati, fel y byddent yn gwneud yn eu gwaith beunyddiol, siom oedd gweld unrhyw enghreifftiau o gyfieithu gwallus a thrwsgl. Wrth osod y darn, er

ei fod yn fwriadol heriol, i adlewyrchu'r hyn a ddisgwylir gan gyfieithydd proffesiynol, y gobaith oedd y byddai'r safon yn arbennig o uchel. Eironig braidd, felly, oedd bod ambell un o'r darnau a gyflwynwyd o dan amodau arholiad yn rhagori ar y gwaith cartref.

Roedd darnau arholiad y 3 ymgeisydd yn cynnwys enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus, e.e.:

...go brin mai un ffactor yn unig sydd wedi achosi
...can hardly be attributed to one single factor

Daw straen i'r amlwg mewn amryw ffyrdd...
Stress manifests itself in a number of ways...

...y perfedd ieir yma o strydoedd
...this cat's cradle of streets

...danteithion melys
...sweet treats

...tynnu coes
...banter

...mewn het uchel
...sporting a stovepipe hat

...ochr yn ochr
...cheek by jowl

Fel y gwelir, roedd rhai o'r rhain yn wirioneddol idiomatig, yn wir, gellid dweud bod ambell un yn ysbrydoledig. Enghreifftiau fel y rhain sy'n sicrhau bod y cyfieithiad yn darllen fel darn gwreiddiol yn yr iaith darged ac yn argyhoeddi'r darllenydd.

Trueni yw gorfod nodi, felly, bod y gwaith a gyflwynwyd hefyd yn cynnwys enghreifftiau o gyfieithu trwsgl a chamgyfieithu, e.e.:

...awyrgylch llesol
...a more wholesome atmosphere

...ers y cwmp ariannol ddegawd yn ôl
...the financial collapse of the last decade

Sut, felly, mae mynd i'r afael â hyn, ac atal straen rhag cynyddu...
How then can this be addressed and stress prevented from getting worse...

a hefyd rai lle nad oedd y gair a ddewiswyd yn gweddu i'r cyd-destun, e.e.:

cwrteisï'r [bensaerniaeth Sioraidd]
delicacy

siarad parod cegin ffarm
easy chatter

cawdel o dref
mess

Bellach, mae'r ffin... yn un amhendant iawn...
Nowadays the boundary... is a very indefinite one...

Wrth gloriannu gwaith yr ymgeiswyr, felly, roedd sylwadau megis 'gormod o fân wallau' yn digwydd ochr yn ochr â 'cyfieithu'n fanwl a gofalus'. Wrth gloi'r adroddiad hwn rhaid i mi, fel mor aml, annog yr ymgeiswyr i fynd ati o ddifri i olygu eu gwaith yn fanwl, er mwyn dileu'r gwallau esgeulus hyn sy'n eu hatal rhag cyrraedd y safon ofynnol.

I derfynu, carwn ddiolch o galon i holl aelodau'r bwrdd arholi ac i staff y swyddfa am eu gwaith trylwyr a'u holl gymorth a'u cefnogaeth i'r Prif Arholwr.

Fiona Gannon
Tachwedd 2018